# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cysgod Y Gaer**

**Cartref Ymddeol Cysgod Y Gaer**
**Maesafallen**
**Corwen**
**LL21 9AE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cysgod Y Gaer

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ddinbych |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 30 Mawrth 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yng nghartref Cysgod y Gaer yn hapus â'r gofal y maent yn ei gael ac yn canmol y staff am eu ffordd ofalgar a pharchus. Maent yn hapus eu bod yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith, sef Cymraeg, gan fod y staff yn siarad Cymraeg. Mae digon o gyfleoedd i'r preswylwyr fynegi eu safbwyntiau. maent yn cwrdd â'r rheolwr yn rheolaidd, sy'n gofyn am eu barn ar bethau fel gweithgareddau a bwyd. Mae staff y gegin yn cynnig dewisiadau ar gyfer pob pryd bwyd a gall y bobl ddewis ble i dreulio eu hamser. Gwnaed newidiadau i'r cartref er mwyn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae un ystafell wedi cael ei haddasu i ddarparu therapi, triniaeth neu drin gwallt; mae bleinds a llenni newydd wedi cael eu prynu a chaiff dodrefn y gellir ei gloi ei ddarparu. Mae ardaloedd eistedd â seddau pren wedi cael eu creu y tu allan, er mwyn i'r bobl allu eistedd dan gysgod yn yr awyr agored. Caiff pob aelod o'r staff ei fetio'n briodol er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn addas i weithio yn y cartref, ac mae pob un yn cael hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'i rôl. Nododd yr arolygiad broblemau posibl o ran effeithiolrwydd y lefelau staffio presennol, ac mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol wedi bwrw ati ar unwaith i adolygu'r sefyllfa.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r wybodaeth gywir ar gael i'r bobl mewn dogfennau allweddol, fel y datganiad o ddiben. Mae gwybodaeth ar gael yn ddwyieithog ac mae'r rhan fwyaf o'r staff yn y gwasanaeth yn siarad Cymraeg, sy'n golygu bod y bobl yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Mae cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd yn rhoi cyfleoedd iddynt fynegi eu barn a'u dewisiadau. Mae'r bobl yn dewis beth yr hoffent ei fwyta, pa weithgareddau i gymryd rhan ynddynt a ble i dreulio eu diwrnod.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fod yn hapus ac yn iach. Caiff eu llesiant corfforol a meddyliol eu monitro, a gofynnir am gyngor gan weithwyr iechyd proffesiynol pan fo angen. Mae'r prydau yn gytbwys ac yn faethlon a darperir ar gyfer deietau arbennig. Gofynnir i'r bobl nodi beth sy'n bwysig iddynt, sut yr hoffent gael eu cefnogi, yr hyn sy'n eu gwneud yn hapus ac unrhyw gas bethau, er mwyn i'r staff allu rhoi cymorth yn effeithiol. Mae'r bobl yn byw eu bywydau o ddydd i ddydd fel y mynnant, ac maent yn fodlon eu byd yng nghartref Cysgod y Gaer.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan fod y staff wedi cael hyfforddiant diogelu, eu bod yn gwybod beth i gadw llygad amdano a phryd i godi pryderon. Mae polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig ar gael i'r staff gofal hefyd. Maent yn cael cyfleoedd rheolaidd i gael cyfarfodydd unigol â'r rheolwr ac i siarad yn gyfrinachol am faterion gofal.

Mae'r bobl yn parhau i gynnal cydberthnasau personol a chydberthnasau teuluol iach tra byddant yn y cartref. Mae amrywiaeth o ystafelloedd lle gall ymwelwyr gwrdd yn breifat. Gall aelodau o'r teulu ymweld â'r cartref ar unrhyw adeg a mynd â'r bobl am deithiau allan, neu i'r ardd. Mae'r bobl yn arddangos lluniau o'u teulu a'u ffrindiau yn eu hystafelloedd gwely ac yn mwynhau siarad am y bobl sy'n bwysig iddynt.

Mae cynllun y cartref yn darparu amrywiaeth o ardaloedd gwahanol er mwyn i'r bobl allu dewis ble i dreulio eu diwrnod. Mae pob ardal yn hygyrch sy'n galluogi'r bobl i dreulio amser mewn ardaloedd cymunedol sy'n diwallu eu hanghenion. Mae lolfeydd bach yn cynnig preifatrwydd wrth gwrdd ag ymwelwyr, ac mae ystafelloedd mwy yn cynnig cyfleoedd i bawb gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae pob ardal yn hygyrch gan fod lifft rhwng y lloriau ac mae'r coridorau yn fawr er mwyn sicrhau bod digon o le i ddefnyddio cymhorthion cerdded.

## Gofal a Chymorth

Caiff gwybodaeth ei chasglu o amrywiaeth o ffynonellau cyn i unigolyn symud i mewn i'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn a'i deulu, ochr yn ochr â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol, yn cyfrannu at yr asesiad. Felly, mae'r rheolwr yn ymwybodol o'r hyn sydd ei angen ac yn gallu asesu a all y cartref ddiwallu anghenion yr unigolyn o fewn yr adnoddau presennol. Darperir gwybodaeth am y gwasanaeth i'r unigolyn yn Gymraeg neu'n Saesneg er mwyn iddo wybod beth i'w ddisgwyl. Mae dogfen 'Dyma fi' yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, ei ddiddordebau, ei hobïau a sut y byddai'n well ganddo gael ei gefnogi.

Mae'r cynllun personol yn cael ei gadw'n gywir, gan ei fod yn cael ei adolygu bob tri mis er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol. Gall y staff gael gafael ar y cynlluniau personol a'r cofnodion pan fo'u hangen, ac maent yn ychwanegu unrhyw gamau gweithredu ac ymyriadau a roddwyd ar waith yn ystod y dydd at y cofnod dyddiol. Mae'r cynlluniau yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn adlewyrchu diddordebau a dewisiadau'r unigolyn.

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt ac sy'n well ganddynt gan fod y gwasanaeth wedi'i ddylunio drwy ymgynghori â'r unigolyn. Gwelsom fod y proffiliau personol yn y cofnodion gofal yn nodi dewisiadau penodol y bobl. Dywedodd y bobl wrthym y gofynnir iddynt am eu dewisiadau ar gyfer prydau bwyd ac y gallant ddewis o blith dau opsiwn neu rywbeth hollol wahanol os byddant am gael rhywbeth gwahanol. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr, a gofynnir eu barn ar faterion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth fel bwyd a gweithgareddau a décor. Mae'r bobl yn canmol y staff am eu caredigrwydd a'u dull parchus. Dywedodd un unigolyn, '*this is a lovely home with lovely staff.'* Mae'r rhan fwyaf o'r preswylwyr a'r staff yn siarad Cymraeg, felly gall y bobl gyfathrebu yn eu dewis iaith.

Mae gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill ar gael i'r bobl er mwyn cynnal eu hiechyd a'u llesiant parhaus. Mae ffeiliau gofal y bobl yn cynnwys llythyrau am apwyntiadau ysbyty, cardiau apwyntiad ar gyfer brechiadau, tystiolaeth o fewnbwn optegwyr a deintyddion a gohebiaeth gan therapyddion galwedigaethol ynghylch cyfarpar arbenigol. Mae'r gwasanaeth yn unigryw gan ei fod yn darparu ystafelloedd adfer i bobl sy'n gadael yr ysbyty ac yn ailddysgu sgiliau er mwyn iddynt allu dychwelyd adref. Yma, ceir cegin fach sy'n cynnwys adnoddau i helpu'r bobl i baratoi eu prydau a'u diodydd eu hunain. Gwnaethom siarad ag un unigolyn sy'n derbyn cymorth o'r fath ac mae'n fodlon iawn ar y gwasanaeth. Mae rhai o'r staff wedi gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn ac maent yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda. Maent yn gwybod sut i helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau ac i annog eu hannibyniaeth.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn cynnig llety sy'n helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau ac sy'n hybu eu llesiant. Ceir lolfeydd tawel sy'n cynnig mannau i ddarllen yn heddychlon, i gael therapi un i un, neu i gwrdd yn breifat ag aelodau o'r teulu ac ymwelwyr eraill. Mae dwy lolfa fwy yn annog y bobl i gymdeithasu ac yn darparu mannau iddynt fwynhau amrywiaeth o weithgareddau gyda'i gilydd. Mae'r unigolion hynny sy'n hoffi gwylio pobl yn mynd a dod yn hoff o'r cynteddau mawr. Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi mewn ardaloedd eistedd hygyrch y tu allan sy'n addas ar gyfer anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Gwelsom fod y bobl yn hapus, yn eistedd yn yr ardd, yn edrych ar y golygfeydd ac yn mwynhau'r haul. Mae'r ystafelloedd gwely yn lân ac yn daclus ac yn adlewyrchu diddordebau'r bobl, eu hobïau a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Gwelsom luniau teulu, pethau bach personol, llyfrau a lluniau'r bobl, ac roedd rhai o'r bobl wedi dod â'u dodrefn eu hunain. Mae'r darparwr wedi buddsoddi yn yr adeilad, gan aildrefnu ystafelloedd i ddiwallu anghenion newidiol y bobl; mae yna ystafell therapi erbyn hyn y gellir ei defnyddio i drin gwallt ac mae rhai o'r ystafelloedd ymolchi wedi cael eu diweddaru er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch. Mae'r ardal fwyta yn cynnig digon o seddi a byrddau i'r bobl eistedd gyda'i gilydd a chael eu prydau. Caiff y byrddau eu gosod â llieiniau bwrdd, napcynnau, pupur a halen, a blodau yn y canol. Caiff cerddoriaeth hiraethus ei chwarae yn ystod amser bwyd, sy'n creu awyrgylch hamddenol.

Caiff y cartref ei gadw'n ddiogel drwy archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd er mwyn gwneud yn siŵr nad oes angen sylw ar unrhyw ardal. Gwelsom fod gwiriadau glanhau a gwiriadau diogelwch wedi'u trefnu bob dydd yn y gegin er mwyn sicrhau hylendid da a chydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi dyfarnu sgôr o 5 i'r gegin yn ddiweddar, sef y sgôr uchaf posibl. Gwelsom amrywiaeth o wiriadau diogelwch i fonitro hylendid dŵr, gosodiadau gwifrau trydanol, diogelwch tân gan gynnwys y cyfarpar a'r profion. Mae'r cofnodion yn dangos bod yr unigolyn sydd wedi'i gyflogi i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw yn ymateb yn gyflym i unrhyw waith atgyweirio a nodir gan y staff. Mae cynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith ar gyfer pob unigolyn ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau yn y cartref er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â chartref Cysgod y Gaer bob tri mis er mwyn cadarnhau bod y bobl yn hapus a bod y gwasanaeth yn gweithredu ac yn datblygu yn unol â'r disgwyliadau. Yn ystod yr ymweliad, mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a gyda'r staff. Mae'n cwrdd â'r rheolwr ac yn cynnal archwiliadau o sampl o gofnodion, gweithdrefnau, a'r amgylchedd. Mae'r rheolwr yn cael cyfarfodydd rheolaidd â'r staff gofal, a chaiff gwybodaeth ei throsglwyddo ar ddechrau pob shifft, fel bod y staff bob amser yn ymwybodol o ddatblygiadau a newidiadau. Mae gan y rheolwr amserlen o archwiliadau hefyd er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg fel y dylai.

Mae prosesau sicrhau ansawdd parhaus yn casglu barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gwelsom fod yr ymatebion yn gadarnhaol. Mae cofnodion y cyfarfodydd â phreswylwyr hefyd yn dangos tystiolaeth y gofynnir am eu barn. Mae'r darparwr yn bwriadu rhoi dulliau newydd ar waith i ddangos i'r preswylwyr bod eu barn yn bwysig. Bydd y bobl yn gallu gweld bod eu hawgrymiadau wedi cael eu hystyried ar hysbysfwrdd, 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.  Mae'r bobl wedi awgrymu y dylid cynnal mwy o deithiau allan a chafodd hyn ei drefnu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis, sy'n arwain at adroddiad sy'n nodi'r hyn y mae'n teimlo sy'n gweithio'n dda a lle y gellir gwneud gwelliannau o bosibl.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan dîm profiadol o staff gofal a gafodd eu fetio'n briodol cyn iddynt gael eu cyflogi. Mae'r cofnodion yn dangos bod amrywiaeth o hyfforddiant yn cael ei ddarparu i wella sgiliau a gwybodaeth y staff yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau; mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnwys archwiliadau hyfforddiant fel rhan o'i restr archwiliadau bob tri mis, er mwyn monitro cynnydd o ran hyfforddiant. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd pobl yn y gwely am 11:00am; cadarnhaodd y staff y byddai dau o'r bobl hyn fel arfer wedi codi, ond fod y staff wedi bod yn brysur iawn. Roedd un aelod o'r staff yn brysur yn cwblhau rownd feddyginiaeth sy'n cymryd awr a hanner, ac mae angen mwy nag un aelod o staff ar sawl preswylydd i'w helpu i godi. Dywedodd un preswylydd wrthym fod yn rhaid iddo aros i gael cymorth weithiau, gan fod y staff yn brysur. Nododd cofnodion cyfarfodydd fod y staff wedi sôn am y lefelau staffio yn y gorffennol, gan nodi nad oes ganddynt ddigon o amser i allu sgwrsio â'r preswylwyr. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn cymryd camau i adolygu'r lefelau staffio. Er nad oes angen cymryd camau ychwanegol ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 34 | Mae'r staff a'r preswylwyr wedi codi materion sy'n awgrymu nad yw'r lefelau staffio bob amser yn effeithiol. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod digon o staff yn cael eu cyflogi bob amser i helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau ac i ddiwallu eu hanghenion mewn modd amserol. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/11/2024